# ATODLEN 6

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf 2016*

4 Yn adran 34 (methu â darparu datganiad ysgrifenedig) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

> "(6) Mae paragraffau 1 a 2 o Atodlen 9A yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â chontractau safonol cyfnodol, a chontractau safonol cyfnod penodol sy'n ymgorffori adran 186 neu sy'n cynnwys cymal terfynu'r landlord, sy'n atal landlord rhag rhoi hysbysiad (o dan adran 173 neu 186 neu o dan gymal terfynu'r landlord) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad contract ildio meddiant, os nad yw'r landlord wedi darparu datganiad ysgrifenedig o'r contract o dan adran 31(1) neu (2)."